

## LEWES, EVELYN ANNA (c. 1873 - 1961), awdur

**Enw:** Evelyn Anna Lewes  
**Dyddiad geni:** c. 1873  
**Dyddiad marw:** 1961  
**Rhiant:** Florence Lewes (née Kinnear)  
**Rhiant:** Price Lewes  
**Rhyw:** Benyw  
**Galwedigaeth:** awdur  
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu  
**Awdur:** Mary Auronwy James

Un o dri o blant yr uchgapten Price Lewes, swyddog cynorthwyol gyda milisia Penfro, a'i wraig Florence (ganwyd Kinnear, o Halifax, Nova Scotia); ganwyd c. 1873 yng Nghanada, ond magwyd hi yn Poyston, Hwlfordd, Penfro; cafodd addysg breifat. Tuag 1902 symudodd y teulu i Dyglyn Aeron, Ceredigion, un o hen gartrefi tylwyth y Lewesiaid a gymerasai ran flaenlaw yng Ngheredigion dros y pedair canrif ddiwethaf fel ynadon, siryfion ac aelodau seneddol. Aeth hithau i Eithinfa, Cliff Terrace, Aberystwyth i fyw c. 1928. Bu farw 4 Mawrth 1961 yn ysbyty Croesoswallt, a chladdwyd ei lludw ym mynwent Trefilan, Ceredigion.

Yr oedd yn wraig o bersonoliaeth gref. Dechreuodd ysgrifennu cerddi, erthyglau ac ystorïau i'w cyhoeddi yn 1896 pryd yr ymddangosodd cerdd yn *Wales*, a pharhaodd i wneud hynny hyd tuag 1940. Cyhoeddwyd ei gwaith mewn cylchgronau di-rif, gan gynnwys *The Gentleman's Magazine* (c. 1905), *The Field and the Queen* (c. 1905-14), *The Bookman*, *Fishing Gazette*, 1923-31, *T. P.'s and Cassell's Weekly*, 1927, *Every woman's world* (Toronto), a *Western Home monthly* (Winnipeg); hefyd yn y *Western Mail*, *Cambrian News* a phapurau eraill. Ymhlith ei llyfrau y mae *Picturesque Aberayron* (1899), ac *A guide to Aberaeron and Aeron valley* (1922). Dysgodd ysgrifennu Cymraeg a bu'n ddarlennydd diwyd (1924-33) o weithiau **Lewis Glyn Cothi** ar gyfer *Geiriadur Prifysgol Cymru*. Ceir ei chyfieithiad o ddarnau o waith **Dafydd ap Gwilym** yn *The life and poems of Dafydd ap Gwilym* (1915). Ymhlith ei llawysgrifau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ceir ysgrif yn Gymraeg ('O Neuaddliwyd i Madagascar'), a 'Theatres of West Wales'. Cyfrifid hi'n awdurdod ar straeon gwerin Cymru. Cyhoeddwyd ei stori 'Hywel of Claerwen' yn nhrefodion Eisteddfod Genedlaethol Bangor 1902, ac ymddangosodd eraill yn *Dream folk and fancies* (1926). Y gwaith a ddaeth â hi i amlygrwydd oedd *Out with the Cambrians* (1934), sef ei hatgofion am wibdeithiau gyda Chymdeithas Hynafiaethau Cymru y bu hi'n aelod o'i phwyllgor am flynyddoedd lawer. Derbyniwyd hi'n aelod o Orsedd y Beirdd yn 1916 a bu'n aelod o Lys llywodraethwyr C.P.C., a Ll.G.C. o 1940 ymlaen.

### Awdur

**Dr Mary Auronwy James**

### Ffynonellau

*Mynegai Bywgraffyddol W. W. Price*

*Llawysgrifau Evelyn Lewes yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*

*The Cambrian News and Merionethshire Standard*, 24 Mawrth 1961

Glyn Lewis Jones, *Llyfryddiaeth Ceredigion, 1600-1964* (Aberystwyth 1967), a *Llyfryddiaeth Ceredigion â€¦ Atodiad 1964-1968* (Aberystwyth 1970) am restr o rai o'i herthyglau

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: **Evelyn Anna Lewes**

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: **Q20738066**

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Arddull APA

Hawffraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Modeld ari  
Llywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government